YSGOL

PANT PASTYNOG

# Adroddiad y Llywodraethwyr

# *Governors' Report*

# 2025-26

**Rhagair**

Annwyl Rieni a Gwarcheidwaid

Mae'n bleser gen i gyflwyno adroddiad y llywodraethwyr i chi ar gyfer 2025- 26. Dyma flwyddyn arall a fu'n un brysur a chynhyrchiol iawn i Ysgol Pant Pastynog, ac ymfalchïwn yn holl gyflawniadau'r disgyblion bendigedig sydd yma a diolch i'r staff gweithgar am eu hegni a'u brwdfrydedd diddiwedd.

Ni allwn gelu ei bod wedi bod yn flwyddyn a gynigiodd her ariannol i'r ysgol, a bu'n rhaid gweithio'n ofalus o fewn cyfyngder cyllideb dynn yn sgìl yr hinsawdd economaidd bresennol, a thoriadau cyson dros y blynyddoedd diwethaf yn yr ariannu. Er gwaethaf hyn, llwyddwyd i lywio'r ddarpariaeth mor ofalus gan sicrhau bod y disgyblion yn parhau i gael y profiadau gorau un. Yn hyn o beth, rhaid diolch ichi fel rhieni am eich cyfraniadau allweddol drwy'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon; gwn fod bwrlwm codi arian yn gryfder hanesyddol i gymuned yr ysgol wrth ddangos cefnogaeth i fywyd Ysgol Pant Pastynog - diolch i bawb am eich haelioni. Rhaid diolch hefyd am y grantiau a gafwyd yn ystod y flwyddyn. Yn bennaf oll, mawr yw ein diolch i Mr Meirion Edwards hefyd am ei waith gofalus a medrus wrth arwain holl fywyd yr ysgol gan gadw golwg manwl, parhaus ar y gyllideb sy'n dipyn o dasg. Diolch, Mr Edwards.

Mae presenoldeb yn parhau i fod yn flaenoriaeth genedlaethol a rhydd hyn gryn bwysau ar ysgolion i gyrraedd eu targed gan yr awdurdod lleol. Gwelwn o'r adroddiad bod y targed wedi'i gyrraedd. Unwaith eto, rhaid diolch i chi fel rhieni am eich cydweithrediad i sicrhau bod yr ysgol fwy neu lai wedi taro'r targed o 96%.

Cafwyd arolwg eglwys yn ystod y flwyddyn a daeth tystiolaeth yn yr adroddiad fel mae'r ysgol yn llwyddo'n arbennig i greu ethos arbennig gydag 'amgylchedd gynnes, ddiogel a chroesawgar lle mae pob disgybl yn teimlo'n eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'. Nid ar chwarae bach y bydd hyn yn digwydd. Dyma ffrwyth llafur cydweithio agos gan y tîm staff i wireddu'r nod gan lwyddo i greu 'ymdeimlad cryf o berthyn i un teulu hapus, gofalgar a chynhwysol sy'n cael ei adlewyrchu ym mherthnasoedd clos a pharchus ar draws yr ysgol'. Anodd yw mynegi mewn geiriau cymaint yw ein gwerthfawrogiad o ymroddiad staff yr ysgol i bob dim. Diolch.

Hoffwn gloi drwy ddiolch i'r disgyblion, i chi'r rhieni/gwarcheidwaid, i'm cyd-lywodraethwyr a holl staff yr ysgol am yr ymrwymiad a'r gefnogaeth i fywyd yr ysgol i greu'r hyn sy'n gwneud yr ysgol mor arbennig. Hyderaf y cawn barhau i gydweithio yn ystod y flwyddyn academaidd hon er mwyn dal ati i sicrhau'r gorau i'n disgyblion.

Yn gywir,

Meryl Pierce
Cadeirydd Corff Llywodraethwyr Ysgol Pant Pastynog

***Foreword***

*Dear Parents and Guardians*

*It gives me great pleasure to present the governors' report for 2025-26. It has been another busy and highly productive year for Ysgol Pant Pastynog; we take great pride in the achievements of our wonderful pupils and thank the hardworking staff for their boundless energy and enthusiasm.*

*It must be acknowledged that the year presented financial challenges for the school; we have had to operate carefully within tight budgetary constraints due to the current economic climate and ongoing funding cuts over recent years. Despite this, we successfully managed our provision to ensure that pupils continued to receive the very best experiences. In this regard, I must thank you, the parents, for your vital contributions through the Parent-Teacher Association; the fundraising spirit has long been a strength of the school community in supporting the life of Ysgol Pant Pastynog—thank you all for your generosity. We are also grateful for the grants received during the year. Above all, we extend our sincere thanks to Mr Meirion Edwards for his diligent and skilled leadership of the school, and for maintaining such close, constant oversight of the budget—no small task. Thank you, Mr Edwards.*

*Attendance remains a national priority, placing considerable pressure on schools to meet the targets set by the local authority. We can see from the report that the target has been met. Once again, I must thank you, as parents, for your cooperation in ensuring the school has more or less hit the 96% target.*

*A church inspection took place during the year, and the resulting report highlights the school's outstanding success in creating a special ethos—a 'warm, safe, and welcoming environment where every pupil feels valued'. This does not happen by chance; it is the fruit of close collaboration among the staff team to achieve this goal, successfully creating a 'strong sense of belonging to one happy, caring, and inclusive family, reflected in close and respectful relationships throughout the school'. It is difficult to put into words just how much we appreciate the staff's dedication to every aspect of the school. Thank you.*

*I would like to conclude by thanking the pupils, you—the parents and guardians—my fellow governors, and all the school staff for the commitment and support shown to the life of the school, creating the very qualities that make it so special. I am confident that we will continue to work together during this academic year to ensure the best for our pupils.*

*Yours sincerely,*

*Meryl Pierce*

*Chair of the Governing Body, Pant Pastynog School*

**Staff yr Ysgol – *School Staff***

| | |
|---|---|
| Pennaeth – *Head teacher*: | Mr Meirion Edwards |

Gyda gofal dosbarth Bl5 a 6 / *with Yr 5 & 6 class responsibility*

*<u>Athrawon Cyfnod Allweddol 2 / Key Stage 2 Teachers</u>*

| | |
|---|---|
| Athrawes Bl 5 a 6 / Yr 5 and 6 teacher | Mrs Mali Williams |
| Athrawes Bl 3 a 4 / *Yr 3 & 4 teacher* | Mrs Teleri Roberts |
| | Mrs Ela Hughes |
| <u>Athrawon y Cyfnod Sylfaen</u> | Mrs Lois Morgan |
| *Foundation Stage Teachers:* | |
| <u>Cynorthwywyr Dysgu</u>: | |
| *Learning assistants:* | Ms Elin Jones |
| | Ms Siân V. Jones |
| | Ms Nerys Roberts |
| <u>Staff Cynorthwyol – *Auxiliary staff:*</u> | |
| Ysgrifenyddes – *Secretary:* | Mrs Gwenan Roberts |
| Cogydd – *Cook:* | Mrs Gwenan Roberts |
| Gofalwr/*Caretaker*: | Mr David Jones / Julie Norton o 30.3.26 |
| Cynorthwywyr Ganol dydd | Ms Elin Jones + Ms Nerys Roberts |
| *Midday Supervisors* | |
| <u>Clwb Brecwast – *Breakfast Club*</u> | Ms Elin Jones |
| | Mrs Gwenan Roberts |

**Y Corff Llywodraethol – *The Governing Body***

| | |
|---|---|
| Cadeirydd/*Chairperson:* | Mrs Meryl Pierce |
| Is-gadeirydd/*Vice Chairperson:* | Mr Huw Davies |
| Clerc/*Clerk*: | Mrs Gwenan Roberts |
| Llywodraethwyr AALl:<br>*LEA Governors:* | Mrs Meryl Pierce<br>Mrs Iona Jones |
| Llywodraethwyr Cymunedol:<br>*Community Governors:* | Mrs Rhian Jones<br>Mr Robert Davies |
| Rhiant Lywodraethwyr:<br>*Parent Governors:* | Mrs Dona Jones<br>*Mr Huw Davies*<br>Mrs Charlotte McLelland-Kite |
| Llywodraethwyr Sylfaen:<br>*Foundation Governors:* | Mr Philip Williams<br>Parchedig/Reverend Samantha Quilly + Juliet Fraser |
| Athrawon/*Teachers:* | Mr Meirion Edwards / Mrs Teleri Roberts |
| Staff / Staff | Mrs Siân Jones |
| Gellir cysylltu â'r Cadeirydd a'r Clerc yn:<br>*The Chair and Clerk can be contacted at:* | Mrs Gwenan Roberts, Ysgol Pant Pastynog,<br>Prion, Dinbych, LL16 4SG - 01745 890331 |

**Costau a threuliau'r Corff Llywodraethol – The Governors' cost and expenses**

Yn unol â Pholisi Lwfansau Llywodraethwyr yr ysgol, ni thalwyd unrhyw gostau i'r Llywodraethwyr yn ystod y flwyddyn.

*In line with the school Governors' Allowances Policy, there weren't any costs paid to any Governors during the year.*

Roedd y cyfarfodydd canlynol wedi cymryd lle dros y flwyddyn.

The following meetings were held during the year:

| Cyfarfodydd 2025-26 Meetings | Tymor yr Hydref<br>Autumn Term<br>2025 | Tymor y Gwanwyn<br>Spring Term<br>2026 | Tymor Yr Haf<br>Summer Term<br>2026 |
|---|---|---|---|
| **Llywodraethwyr Llawn**<br>*Full Governors Meeting* | 1.10.2025<br>27.11.2025 | 12.03.2026 | 25.06.2025 |
| **Is-bwyllgor Cwricwlwm**<br>*Curriculum Sub-Committee* | 6.11.2025 | 12.03.2026 | 11.06.2026 |
| **Is-bwyllgor**<br>**Cyllid ac Adnoddau**<br>*Finance and Assets Sub-committee* | 1.10.2025<br>27.11.2025 | 12.03.2026 | 25.06.2025 |
| **Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch**<br>*Health and Safety Sub-committee* | 13.11.2025 | 05.02.2026 | 07.05.2026 |

**Cyfarfodydd Llywodraethwyr – *Governors' Meetings***

Ni chynhelir cyfarfod i rieni yn ystod y flwyddyn.
*No meeting for parents was held during the year.*

Bydd y materion a nodir isod ar agenda pob cyfarfod:
*In every meeting, the matters noted below are on the agenda:*

Diogelu - *Safeguarding*
Cynllun Datblygu Ysgol – *School Development Plan*
Materion ariannol – *Financial matters*
Materion staffio – *Staffing matters*
Materion Iechyd a Diogelwch – *Health and Safety matters*
Hyfforddiant Llywodraethwyr – *Governors' training*
Materion Sirol a Rhanbarthol – *County and Regional Matters*
Diweddaru a Chytuno Polisiau—*Update and Adopt policies*
Presenoldeb - *Attendance*

**Canlyniadau – Results**
Does bellach ddim lefelau na deilliannau i'w gyflwyno i'r Llywodraethwyr ar ddiwedd Cyfnod Sylfaen / Cyfnod Allweddol 2. Bellach rydym yn cyflwyno canlyniadau 'Asesiadau Personol' y plant o flwyddyn 2 i 6 i'r Llywodraethwyr yng nghyfarfod olaf ym Mis Mehefin/Gorffennaf.

*There are no longer any levels or outcomes to be presented to the Governors at the end of Foundation Phase / Key Phase 2. We now present the results of the children's 'Personal Assessments' from year 2 to 6 to the Governors at the last meeting in June/July.*

**Blaenoriaethau 2025-26 Priorities**
Gweler isod Blaenoriaethau'r Ysgol ar gyfer 2025-26.
*See below the School's Priorities for 2025-26.*

1. *Datblygu sgiliau llythrennedd y disgyblion yn systematig ar draws yr ysgol, drwy roi ffocws ar wella sillafu, llawysgrifen, atalnodi a gramadeg, er mwyn cryfhau ac ymestyn safonau ysgrifennu'r disgyblion.*
2. *Sicrhau bod gwerthoedd Cristnogol yn cael eu meithrin a'u dathlu ar draws bywyd yr ysgol, gan gryfhau ethos Cristnogol a'r cysylltiad â'r gymuned leol.*
3. *Datblygu sgiliau rhesymu'r disgyblion yn systematig ar draws pob cam o'r maes dysgu, drwy sicrhau addysgu bwriadus, iaith gyson a chyfleoedd strwythuredig i ddisgyblion egluro, cyfiawnhau a myfyrio ar eu meddwl. Nod hyn yw cryfhau dealltwriaeth ddyfnach gan y disgyblion a'u gallu i gymhwyso eu sgiliau rhesymu ar draws y cwricwlwm.*

**Cyllid yr Ysgol – *School Budget 2025-26***

Mae'r Corff Llywodraethol yn cydweithio'n agos efo Swyddog Cyllid Clwstwr Ysgol Glan Clwyd, wrth drin cyllid yr ysgol. Bydd y Llywodraethwyr yn blaenoriaethu'n addas wrth wario ar staffio ac adnoddau fel bod y ddarpariaeth a gynigwn yn hybu safonau uchel ac addysg o'r radd flaenaf i'r plant.

*The Governing Body works in collaboration with The Glan Clwyd Cluster Finance Officer, when dealing with the school budget. The Governors agree on the priorities regarding staffing and resources so that the provision that we offer promotes high standards and education of the highest rank for the children.*

# Ysgol Pant Pastynog

## Adroddiad Cyllideb / Budget Report 2025-26

**DENBIGHSHIRE COUNTY COUNCIL - ANNUAL STATEMENT OF FINANCIAL ACCOUNT**

**YSGOL PANT PASTYNOG** — **27/05/2026**

**DELEGATED SCHOOL BUDGET** — **2025/2026**

| CATEGORY | ANNUAL BUDGET | TOTAL EXPENDITURE | UNDERSPEND/ (OVERSPEND) |
|---|---|---|---|
| BALANCE B/FWD | (23,738) | (23,738) | 0 |
| EMPLOYEES | 399,650 | 406,222 | (6,572) |
| PREMISES | 23,326 | 22,188 | 1,139 |
| TRAVELLING EXPENSES | 4,000 | 6,827 | (2,827) |
| SUPPLIES & INSURANCE | 24,901 | 21,312 | 3,589 |
| SERVICES AND CONTRACTS | 27,807 | 28,373 | (566) |
| INCOME | (43,634) | (74,429) | 30,795 |
| CONTINGENCY | (23,123) | 0 | (23,123) |
| **SCHOOL TOTAL** | **389,190** | **386,756** | **2,435** |

**CYNGOR SIR DDINBYCH - DATGANIAD BLYNYDDOL CYFRIF ARIANNOL**

**YSGOL PANT PASTYNOG** — **27/05/2026**

**CYLLIDEB YSGOL DIRPRWYEDIG** — **2025/2026**

| CATEGORI | CYLLIDEB FLYNYDDOL | CYFANSWM GWARIANT | DANWARIANT/ (GORWARIANT) |
|---|---|---|---|
| GWEDDILL WEDI'I DDWYN YMLAEN | (23,738) | (23,738) | 0 |
| CYFLOGAU STAFF | 399,650 | 406,222 | (6,572) |
| ADEILADAU | 23,326 | 22,188 | 1,139 |
| CLUDIANT | 4,000 | 6,827 | (2,827) |
| CYFLENWADAU AC YSWIRIANT | 24,901 | 21,312 | 3,589 |
| GWASNAETHAU A CHYTUNDEBAU | 27,807 | 28,373 | (566) |
| INCWM | (43,634) | (74,429) | 30,795 |
| WRTH GEFN | (23,123) | 0 | (23,123) |
| **CYFANSWM YSGOL** | **389,190** | **386,756** | **2,435** |

**Derbyniwyd y rhoddion canlynol yn ystod 2025-26:**

***The following donations were received during 2025-26:***

**Grantiau – *Grants***

| | | |
|---|---|---|
| Cogog Capital Grant – Creu Tŷ tyfu ar y cae / Set up a Pollytunnel on the field. | £ | 700.00 |
| Melinau Gwynt Nantglyn – Gymnasteg / Nantglyn Wind Farm Trust - Gymnastics | £ | 840.00 |
| Blue Coat Foundation – Cyfrannu tuag at gostau gwersi canu / Mrs Bethan Antur costs | £ | 360.00 |
| Grant Tir Mostyn / Tir Mostyn Grant – Costau rhedeg bws Mini /Running cost for Minibus | £ | 1000.00 |
| Grant Edina Trust Grant – Offer Gwyddoniaeth / Science Equipment & resources | £ | 797.13 |
| Cyngor Celfyddydau Cymru / Arts Council of Wales – Sioe 'Dosbarth Miss Prydderch' Show | £ | 494.00 |
| Ymddiriedolaeth St Mary's College Trust – Creu cornel myfyrio / Create a Reflection corner | £ | 200.00 |

**Cyfraniadau Eraill a Dderbynwyd—*Other Contributions Received***

| | | |
|---|---|---|
| Melin Gwynt Hafodty Ddu – Creu Her Darllen newydd/Creating a new Reading Challenge | £ | 3,000.00 |
| Cymdeithas Rhieni ac Athrawon/ PTA – Adnoddau i'r dosbarthiadau/Resources for classes | £ | 350.00 |
| Cymdeithas Rhieni ac Athrawon/PTA – Costau bws Sioeau Nadolig/ Bus costs Christmas shows | £ | 605.00 |
| Cymdeithas Rhieni ac Athrawon/PTA – Cost bws i Sŵ Môn / Bus cost to Anglesey Zoo | £ | 175.00 |
| Cymdeithas Rhieni ac Athrawon/PTA – Gazebos | £ | 439.98 |

**Cefnogi elusenau – Supporting Charities**

Codwyd yr arian canlynol at waith elusennol / *The following sums of money were raised for charity:*

| | | |
|---|---|---|
| Bore Coffi MacMillan / MacMillan Coffee Morning | £ | 263.20 |
| Codi arian i Ambiwlans Awyr Cymru / Wales Air Ambulance | £ | 341.36 |
| Plant Mewn Angen / *Children in Need Charity* | £ | 157.00 |
| Codi arian tuag at Ysbyty Alder Hey / Alder Hey Hospital | £ | 390.00 |
| Cymorth Cristnogol/Christian Aid | £ | 300.00 |

Casglwyd arian tuag at Ambiwlans Awyr Cymru yn dilyn ein gwasanaeth Diolchgarwch ym mis Hydref. A llwyddwyd i godi arian sylweddol ar gyfer Ysbyty Alder Hey yn dilyn ein Gwasanaeth Nadolig.

*Money was collected for the Wales Air Ambulance following our Thanksgiving service in October, and a significant amount was raised for Alder Hey Hospital following our Christmas service.*

**Cwricwlwm yr ysgol – School curriculum**

Mae plant Ysgol Pant Pastynog yn derbyn addysg o ansawdd uchel. Prif nod ein Cwricwlwm yw helpu plant i gyflawni'r 4 diben sef, bod yn -

- Ddysgwyr uchelgeisiol a galluog,
- Dysgwyr mentrus a chreadigol,
- Dinasyddion egwyddorol a gwybodus
- Dysgwyr iach a hyderus.

Er mwyn i'r plant gyrraedd y 4 diben rydym yn addysgu'r 6 Maes dysgu a Phrofiad sef:

1. **Celfyddydau Mynegiannol** - Celf, Dawns, Ffilm, Drama, Cerddoriaeth a Chyfryngau Digidol

2. **Iechyd a Llesiant** - Dysgu am gael corff a meddwl iach, deall perthnasoedd iach a sut i wneud penderfyniadau bywyd da.

3. **Dyniaethau** - Dysgu am hanes, daearyddiaeth a chrefyddau. A hefyd busnes, gwleidyddiaeth

4. **Ieithoedd, Llythrennedd a chyfathrebu** - Dysgu a deall sut i gyfathrebu mewn gwahanol ieithoedd (llafar, darllen ac ysgrifennu.)

5. **Mathemateg a Rhifedd** - Dysgu sgiliau rhif, trin data, siâp a chyfrifo.

6. **Gwyddoniaeth a Thechnoleg** - Deall natur a phethau byw, sut mae pethau yn gweithio, dylunio ac adeiladu pethau.

Ynghlwm i'r hyn a ddysgir drwy'r Meysydd Dysgu mae'r plant hefyd wedi bod yn dysgu sgiliau llythrennedd, rhif a digidol yn drawsgwricwlaidd.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r disgyblion yn parhau i gael gwersi Cymraeg a Mathemateg bob bore ac yna bob prynhawn rhown gyfleoedd i'r plant ddysgu drwy chwarae yn y gwahanol ardaloedd dysgu: ardal iaith, ymchwiliol, rhif, adeiladu, byd bach, yr ardal dawel, sain, dwylo prysur, graffeg, TGCh, rhyngweithiol, iach a thu allan.

*The Pupils at Ysgol Pant Pastynog receive education of a good standard. The main aim of our Curriculum is to ensure that the children become -*

- *Ambitious, capable learners*
- *Enterprising, creative contributors*
- *Ethical, informed citizens*
- *Healthy, confident individuals*

*In order for the children to achieve the 4 purposes we teach the 6 Areas of learning and Experience which are:*

*1. **Expressive Arts** - Art, Dance, Film, Drama, Music and Digital Media*

*2. **Health and Wellbeing** - Learning about having a healthy body and mind, understanding healthy relationships and how to make good life decisions.*

*3. **Humanities** - Learning about history, geography and religions. And also business, politics*

*4. **Languages, Literacy and communication** - Learning to communicate (speaking, writing and understanding different languages).*

*5. **Mathematics and Numeracy** - Learning number skills, data manipulation, shape and calculation.*

*6. **Science and Technology** - Understanding nature and living things, how things work, designing and building things.*

*In addition to what is taught through the 6 Areas of Learning, the children have also been learning literacy, number and digital skills cross-curricular.*

*In the Foundation Stage, the children have Welsh and Maths lessons each morning and every afternoon we give them opportunities to learn through play in the various learning areas: language, investigative, number, building, small world, quiet area, sound, busy hands, graphic, ICT, interactive, healthy and outside.*

**Llawlyfr yr Ysgol – School Prosbectus**

Mae copi o brosbectws yr ysgol i'w weld ar wefan yr ysgol http://www.ysgolpantpastynog.cymru/ neu cewch gopi yn yr ysgol.

*A copy of the School prosbectus can be seen on our website http://www.ysgolpantpastynog.cymru/ or alternatively you can pick up a copy at the school.*

**GWAHARDDIADAU / EXCLUSIONS**

Ni waharddwyd unrhyw ddisgybl yn ystod y flwyddyn **2025-26**.

*No pupils were excluded in the year **2025-26**.*

**Presenoldeb - Attendance**

Mae presenoldeb yn dda iawn yn Ysgol Pant Pastynog. Pan fo plentyn yn absennol, disgwylir i rieni gysylltu â'r ysgol mor fuan ag sy'n bosibl a cyn 8.45yb, i egluro'r absenoldeb - un ai drwy ffonio'r ysgol neu drwy anfon e-bost.

*Attendance is very good in Ysgol Pant Pastynog. When a child is absent, we expect parents to contact the school as soon as possible before 8.45am – either by phone or by emailing the school.*

**Presenoldeb 2025-26 *Attendance* - Targed / *Target* - 96%**

*Tymor yr Hydref / Autumn Term – **96.01%***

*Tymor y Gwanwyn / Spring Term – **96.23%***

*Tymor yr Haf / Summer Term – **92.46%***

***Presenoldeb am y flwyddyn oedd 95.76%. Atttendance for the year was 95.76%.***

**Targed blwyddyn nesaf fydd (2026-2027) 96%.** Gofynnwn yn garedig am eich cefnogaeth i gyrraedd y targed hwn.

***Next year's target will be (2026-2027) 96%***. *We kindly ask for your support to reach this target.*

**Addysg Bersonol a Chymdeithasol – *Personal and Social Education***

Mae ABaCh yn helpu plant i ddatblygu'n bobl gyfrifol a hunan hyderus ac mae agweddau o ABaCh yn gwau drwy holl bynciau'r cwricwlwm drwy'r ysgol. Anogwn ein plant i chwarae rôl bositif wrth gyfrannu at fywyd yr ysgol a'r gymdeithas ehangach. Rhoddir cyfle i'r plant gael llais a chlust o fewn y sesiynau Amser Cylch yn y dosbarthiadau.

*PSE helps the children to develop into confident and responsible individuals and aspects of PSE interweave through all subjects throughout the school. We encourage children to play a positive role by contributing to the life of the school and to that of the wider world. The children are given a voice and an ear in the Circle Time within the classes.*

**Cyngor Ysgol - *School Council (Pwyllgor Sam Committee)***

Llwyddodd y Cyngor Ysgol i drefnu a chodi arian ar gyfer Diwrnod Plant Mewn Angen. Yn ogystal bu iddynt ysgrifennu llythyr i'r Sir yn gofyn am gymorth er mwyn lleihau costau biliau ynni. Yn dilyn hyn, bu i Sir osod paneli Solar ar do'r Ysgol, gwyliau hanner tymor yr Hydref. Penderfynodd y pwyllgor mai casglu arian tuag at Ambiwlans Awyr Cymru ac Ysbyty Alder Hey oedden ni am ei wneud eleni yn dilyn ein gwasanaethau. Maent hefyd wedi hel syniadau gan blant yr ysgol ar sut i ddatblygu'r ysgol. Yn ogystal bu i Swyddogion y Pwyllgor gyflwyno gwaith Pwyllgorau'r Ysgol yn Fforwm Cynghorau Ysgol Sir Ddinbych.

Cafodd y pwyllgorau eraill yn yr ysgol hefyd gyfle i arwain gweithgareddau'r ysgol yn ystod y flwyddyn; er enghraifft, cynhaliodd Pwyllgor Greta fore coffi ar gyfer elusen Cancr Macmillan, trefnodd Pwyllgor Iori ddiwrnod pop corn a siocled poeth i godi arian i brynu offer Addysg Gorfforol newydd, a chynhaliodd Pwyllgor Cai fore coffi cymunedol ar gyfer yr elusen Cymorth Gristnogol.

*The School Council successfully organised and raised funds for Children in Need. In addition, they wrote a letter to the County asking for assistance to reduce our energy costs. Following this, the County installed solar panels on the school roof during the Autumn half-term holiday. Following our services, they decided to collect money for the Wales Air Ambulance and Alder Hey Hospital. They have also been gathering ideas from the pupils on how to develop the school. Furthermore, the Committee Officers presented the work of all of our school committees at the Denbighshire School Councils Forum.*

*The Other committees at school, also had the opportunity to lead some School's activities during the year; for example, Greta's Committee held a coffee morning for Macmillan Cancer Support, Iori's Committee arranged a popcorn and hot chocolate day to raise funds to buy new PE equipment, and Cai's Committee held a community coffee morning for the Christian Aid Charity.*

**Chwaraeon – Sport**

Rhoddwyd sawl cyfle i blant yr ysgol gymryd rhan mewn gwersi Chwaraeon amrywiol eleni megis pêl-droed, rygbi, tenis, hoci, cyfeiriannu, dawns, rownderi, pêl osgoi, a phêl rwyd. Rhoddwn bwyslais ar gymryd rhan, ond anelwn hefyd at gyrraedd safonau uchel mewn perfformiadau unigol a gwaith tîm.

*Our pupils were given opportunities to take part in various Sports lessons this year such as football, rugby, tennis, hockey, dance, orienteering, rounders, dodgeball and netball. We encourage everyone to take part, but we also aim to achieve high standards of performance as individuals and in team work.*

**Cymerodd yr ysgol rhan yn y cystadlaethau canlynol yn ystod 2025-26. /**

***The school took part in the following tournaments during 2025-26.***

Pêl-droed yr Urdd timau Bechgyn a Merched / *Urdd Football Boys and Girls teams*

Pêl-droed yr Urdd Blwyddyn 3 a 4 cymysg / Urdd Yr 3 & 4 Mixed Football

Rygbi Tag yr Urdd Merched Bl 5 a 6 / Urdd Yr 5 & 6 Girls Rugby Tag competition

Rygbi Tag yr Urdd Blwyddyn 3 a 4 cymysg / Urdd Yr 3 & 4 Mixed Rugby Tag competition

Cystadleuaeth Criced yr Urdd Bl 3 a 4/ Urdd Mixed Cricket Competition Yr 3&4

Cystadleuaeth Criced Merched Bl 5 a 6 / Girls Cricket Competition Yr 5&6

Pêl-rwyd Gymysg yr Urdd Bl 5a6 / Year 5&6 *Mixed Netball*

Athletau dan do Bl 4,5 a 6 / Indoor Athletics Years 4,5&6

Aeth 19 o blant CA2 gymryd rhan yn Ras Trawsgwlad Dyffryn Clwyd, gyda 1 plentyn yn mynd drwodd i ras Terfynol Sir Ddinbych a dod yn drydydd drwy'r Sir! / 19 pupils from KS2 took part in the Dyffryn Clwyd *Cross Country race with 1 pupil taking part in the the Denbighshire Final Cross-country race and coming third in that race!*

**Cystadleuaeth Gyfeillgar / *Friendly Tournament***

Bu i fechgyn Bl 5 a 6 chwarae gêm bêl droed gyfeillgar gydag Ysgol Bro Cinmeirch.

*Year 5 and 6 children had a friendly football match with Ysgol Twm o'r Nant.*

**Nofio / *Swimming***

Cafodd plant o Flwyddyn 1 i 6 wersi nofio drwy'r Ysgol eto eleni.

*Pupils from Year 1 to 6 had swimming lessons arranged by the School again this year.*

**Gymnasteg / Gymnastics**

Cafodd plant o Flwyddyn Derbyn i 6 wersi Gymnasteg am 4 wythnos yng Nghlwb Gymnasteg Dinbych a Ruthun yn dilyn ennill grant o gronfa Ymddiriedolaeth Gymunedol Fferm Wynt Tir Mostyn a Foel Goch.

*Pupils from Reception - Yr 6 had Gymnastics lessons for 4 weeks at Denbigh and Ruthin Gymnastics Club following successfully getting funding from The Tir Mostyn & Foel Goch Windfarm Community Trust (Nantglyn).*

**Hyfforddiant Beicio / *Bikeability training***

Cafodd plant Blwyddyn 6 gyfle i gael hyfforddiant beicio Lefel 1 a 2. Yn ogystal llogwyd Beiciau Cydbwysedd am dymor i blant Cyfnod Sylfaen cael datblygu eu sgiliau beicio.

*Year 6 children had the opportunity to have Level 1 and 2 cycling training. In addition, balance bikes were hired for a term, to allow Foundation Phase children to develop their cycling skills.*

**Mabolgampau – *Sports day***

Cafodd yr ysgol ddiwrnod Mabolgampau **Dydd Llun 29ain o Fehefin**, a bu i blant CA2 cael Mabolgampau Maes y bore hwnnw. Roedden yn hapus iawn i weld gymaint o rieni a theuluoedd oedd wedi gallu ymuno gyda ni, i gefnogi'r plant ar y diwrnod.

*There was a whole School Sports day on **Monday June 29th**, and pupils from KS2 had their field sports day on the same morning. We were very happy to see so many parents and families who were able to join us, to support the children on the day.*

**Eisteddfod Urdd – Urdd Eisteddfod**

Bu i sawl plentyn gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd Cylch Dinbych - Unigolion a Chôr yr ysgol. Roedd pawb wedi cynrychioli'r ysgol yn arbennig o dda gyda'r Côr yn dod yn gyntaf a 11 eitem arall yn mynd ymlaen i Eisteddfod Sir Ddinbych. Cafwyd ambell ail a trydydd yn Eisteddfod y Sir gyda Chriw Perfformiad Theatrig yn ennill y wobr gyntaf a mynd ymlaen i'r Eisteddfod Genedlaethol yn Ynys Môn. Ni chafwyd un o'r tair gwobr gyntaf yn yr Eisteddfod Genedlaethol, ond fe wnaeth y criw berfformio'n wych!

Yn ychwanegol roedd sawl plentyn o'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus yng nghystadlaethau Celf a Chrefft yr Urdd.

Cynhaliwyd Cystadleuaeth COGURDD a POBURDD yn yr ysgol ym mis Hydref, gyda 19 o blant o Fl 4, 5 a 6 wedi ymgeisio.

*Several children competed in the Denbigh Area Urdd Eisteddfod – Individuals and as part of the School Choir. Everyone performed exceptionally well; the choir came first, and eleven other items qualified for the Denbighshire County Eisteddfod. At the County Eisteddfod, the theatrical performance group won first prize and advanced to the National Eisteddfod on Anglesey. Although they didn't get 1st,2nd or 3td place, they performed brilliantly!*

*In addition, several children from the school were successful in the Urdd Art and Craft competitions.*

*The COGURDD and POBURDD Competitions were held at the school in October, with 19 children from Years 4, 5 and 6 taken part.*

**Gweithgareddau –** Cofiwch ddilyn ni ar Facebook ac Instagram, fe welwch luniau o'r profiadau mae'r plant yn ei dderbyn. Mae'r lluniau yn cael eu hychwanegu'n rheolaidd. Gallwch hefyd ymweld â'n gwefan https://www.ysgolpantpastynog.cymru.

Dyma flas o'r gweithgareddau gafodd y plant eleni:

- Sgwrs gan PC Gareth - Diogelwch ar y we a Seibr Bwlio.
- Ymweliadau Cyfnod Sylfaen - Taith i Eglwys Llanrhaeadr i weld 'Ffenestr Jesse'. Cafodd Derbyn Bl 1 i 2 gymryd rhan yn y Jambori yn Rhuthun. Gwylio Sioe Cyw yn Bala. Ymweld â Llyfrgell Dinbych a Ffynnon Dyfnog. Gŵyl Meithrin yn Neuadd y Dref Dinbych. Mynd am dro o gwmpas yr ardal leol. Cafodd Plant y Cyfnod Sylfaen i gyd gyfle i fynd i wylio ffilm yn Theatr Twm o'r Nant - wythnos ffilm Dinbych a chael mynd ar daith i Sŵ Môr yn Ynys Môn.
- Ymweliadau CA2 - Ymweliad plant Bl 5 a 6 i Laneurgain i fod yn archeolegwyr Gwyddonol gyda chwmni Gwyddoniaeth 'Xplore'. Aeth Bl 5 a 6 i Ofal dydd y Waen i gyflwyno ein gwasanaeth Diolchgarwch. Bu i Bl 3-6 wylio Pantomeim Nadolig yn y Theatr Clwyd Wyddgrug. Bu i Flwyddyn 6 -

ymweld ag Ysgol Glan Clwyd i weld Sioe 'Ani' a chymryd rhan mewn gweithdy STEM. Bu i Bl 3 a 4 ymweld â llyfrgell Dinbych i weld yr awdur Oliver Sykes. Cafodd Bl 5 a 6 fynd ar daith gerdded ar hyd yr Alwen a Brenig fel rhan o brosiect Tirlun. Aeth Bl 2-6 ar daith i Ganolfan Trin dŵr yr Alwen fel rhan o waith thema 'Sblish Sblash'. Bu i blant Bl 3-6 fynd ar daith i Lŷn Brenig fel taith diwedd flwyddyn.

- Ymwelwyr - Daeth sawl hyfforddwr o gwmni Cerdd Gydweithredol Sir Ddinbych i redeg gweithdy gyda phlant Bl 3 a 4. Cafwyd ymweliad gan y Storïwr Fiona Collins oedd yn cyd-fynd gyda'n thema 'Un tro' i bob Dosbarth. Daeth Catrin Higgins o Dŵr Cymru draw i gynnal gwasanaeth i bawb a gweithdy i blant CA2. Daeth Colin Price o Griced Gogledd Cymru draw i gynnal hyfforddiant sgiliau pêl gyda phlant CA2. Daeth hefyd Nick Marriott (rhiant yn yr Ysgol) draw i gyflwyno ei waith fel pensaer a chefnogi gyda phrosiect Tŷ Tyfu. Daeth Simon Dales (rhiant arall) draw i gyflwyno ei waith fel dyn camera a chreu ffilm gyda phlant Blwyddyn 3 a 4. Cafwyd ymweliad gan awduron Bethan Gwanas yn ogystal â chael gweithdy gyda Anni Llyn yn y llyfrgell yn Ninbych. Treuliodd plant Bl 5 a 6 tridiau yng Ngwersyll yr Urdd Caerdydd. Daeth Sophie o Ambiwlans St John's draw i roi hyfforddiant Cymorth cyntaf a CPR i blant CA2. Daeth Caryl Hughes o Senedd Cymru draw i siarad gyda Bl 3-6 am y Senedd a'r Pleidiau gwahanol. Daeth Brigad dân Dinbych draw i weld plant Cyfnod Sylfaen a Bl 3 a 4. Daeth Jane Jones Swyddog Maeth y Sir draw i son am bwysigrwydd Bwyta'n Iach. Yn ogystal, cafwyd gwasanaeth a gweithdy gan Llinos o elusen Cymorth Gristnogol.
- Bu i gwmni 'Kick it' gynnal Clwb Chwaraeon ar ôl Ysgol i blant Bl1 i 6.
- Bu i ddau blentyn Blwyddyn 6 gael canmoliaeth uchel gyda chystadleuaeth Cynllunio Cerdyn Nadolig i'r Esgobaeth.
- Cynhaliwyd ambell brynhawn Llun Llesol - ble rydym yn canolbwyntio a'r lles y plant - Dr Symud, Dr Natur, Dr Distaw a Dr Diet.
- Cynhaliwyd hefyd wythnos Iechyd y Lles eleni ble cafodd o bob Llys gyfle i gael hyfforddiant Ysgol Goedwig gyda Mrs Hughes. Gweithgaredd chwaraeon gyda Llio o'r Urdd. Mynd am daith o gwmpas yr ardal leol. Cymryd rhan mewn gala nofio. Creu cebab ffrwythau a chelf gan ddefnyddio adnoddau yn yr ardd a chwblhau heriau datrys problem fel tîm.
- Pwyllgor Siarter Iaith wedi cynnal cwis a disgo Cymraeg ar gyfer plant yr ysgol i ddathlu Diwrnod Su' mae'. Bu i ni fenthyg Clustffonau tawel ar gyfer dathlu Dydd Miwsig Cymru. Dathlwyd diwrnod Dewi Sant yn yr ysgol a chafodd plant Blwyddyn 5 a 6 fod yn rhan o orymdaith Dydd Gŵyl Dewi yn Ninbych.
- Diwrnodau eraill a ddathlwyd yn yr ysgol oedd - Owain Glyndŵr, Roald Dahl, T Llew Jones, Cherdyn Coch i Hiliaeth, Gwrth fwlio, Diwrnod y Llyfr ac Iechyd Meddwl a corfforol y plant.
- Daeth Llio o'r Urdd draw i wneud Sesiwn Chwaraeon gyda Meithrin a Derbyn, Bl 1 a 2, a Bl 3 a 4.
- Bu i blant Bl 6 gymryd rhan yng nghystadleuaeth 'Cwis Dim Clem' Menter Iaith Sir Dinbych.
- Cynhaliwyd Cystadleuaeth Mathemateg TTRockstars (Tablau) i blant Bl 5 a 6.
- Cynhaliwyd noson i rieni er mwyn ddathlu llwyddiant y plant fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd.
- Cafodd pob dosbarth gyfle i blannu o amgylch yr ysgol yn ystod y flwyddyn.
- Bu i griw o blant Blwyddyn 3 a 4 a Blwyddyn 5 a 6 gymryd rhan yn elfen trafod llyfr o Gystadleuaeth Gornest Lyfrau. Llwyddodd y ddau grŵp i ddod yn drydydd yn y Sir.
- Cafwyd cyswllt agos gydag Ysgol Glan Clwyd eto eleni, a chafodd plant Blwyddyn 6 gyfle dros y flwyddyn i gymryd rhan mewn sawl gweithgaredd pontio.
- Cynhaliwyd dau fore Coffi i godi arian at ddwy elusen gydag aelodau o ddau bwyllgor yn arwain ar

hyn - Bore Coffi Macmillan a Bore Coffi Cymorth Cristnogol.

**Activities Activities –** Remember to follow us on Facebook and Instagram; you will see photos of the different experiences our pupils are having. Photos are added regularly. You can also visit our website: https://www.ysgolpantpastynog.cymru

Here is a taste of the activities that the children took part this year:

- Talk by PC Gareth – Online safety and cyberbullying.
- Foundation Phase visits – A trip to Llanrhaeadr Church to see the 'Jesse Window'. Reception and Years 1 & 2 took part in the Jambori in Ruthin. Watching the 'Cyw' show in Bala. Visits to Denbigh Library and Ffynnon Dyfnog. A 'Meithrin' (Nursery) festival at Denbigh Town Hall. A walk around the local area. All Foundation Phase children had the opportunity to watch a film at the Twm o'r Nant Theatre (as part of Denbigh Film Week) and go on a trip to the Anglesey Sea Zoo.
- KS2 Visits - Years 5 and 6 visited Northop to act as scientific archaeologists with the science company 'Xplore'. We visited Waen Day Care Centre to perform our Thanksgiving service. Years 3-6 watched a Christmas pantomime at Theatr Clwyd, Mold. Year 6 visited Ysgol Glan Clwyd to see the 'Ani' show and take part in a STEM workshop. Years 3 and 4 visited Denbigh Library to see the author Oliver Sykes. Years 5 and 6 went for a walk along the Alwen and Brenig lake as part of a 'Tirlun' project. Years 2-6 visited the Alwen Water Treatment Centre as part of our 'Splish Splash' theme. Children in Years 3-6 went on a trip to Llyn Brenig as ân end-of-year trip.
- Visitors - Several musical tutors came from the Denbighshire Cooperative Music company to run a workshop with Year 3 and 4 children. We received a visit from the storyteller Fiona Collins, whose sessions aligned with our 'Once Upon a Time' theme for every class. Catrin Higgins from Welsh Water visited to lead an assembly for everyone and a workshop for Key Stage 2 pupils. Colin Price from North Wales Cricket came to conduct ball-skills training with Key Stage 2 pupils. Nick Marriott (a parent) also visited to talk with Year 5&6 pupils about his work as an architect and support our 'Growing House' project. Simon Dales (another parent) came to talk about his work as a Cameraman and he worked Year 3 & 4 pupils to create a film. We were visited by author Bethan Gwanas and also took part in a workshop with Anni Llyn at Denbigh library. Year 5 and 6 pupils spent three days at the Urdd Centre in Cardiff. Sophie from St John Ambulance visited to provide first aid and CPR training to Key Stage 2 pupils. Caryl Hughes from the Senedd (Welsh Parliament) came to speak to Years 3–6 about the Senedd and the various political parties. Denbigh Fire Brigade visited to meet Foundation Phase and Year 3 and 4 pupils. Jane Jones, the County Nutrition Officer, came to talk about the importance of healthy eating. Additionally, Llinos from the charity Christian Aid led an assembly and a workshop.
- 'Kick it' Sports ran an after-school sports club for children from Years 1 to 6.
- Two Year 6 pupils received a 'Highly Commended' award in the Diocesan Christmas Card Design competition.
- Several 'Well-being Monday' afternoons were held—focusing on the children's well-being—featuring 'Dr Movement', 'Dr Nature', 'Dr Quiet', and 'Dr Diet'.
- A Health and Well-being Week was also held this year, during which every 'House' had the opportunity to receive Forest School training with Mrs Hughes. Activities included sports with Llio from the Urdd, a walk around the local area, participating in a swimming gala, creating fruit kebabs and art using resources from our garden, and completing team problem-solving challenges.
- Our Language Charter Committee held a Welsh-language quiz and disco for the pupils to celebrate

'Su'mae Day'. We borrowed silent disco headphones to celebrate Welsh Language Music Day. St David's Day was celebrated at the school, and Year 5 and 6 pupils took part in the St David's Day parade in Denbigh.

- Other days celebrated at the school included: Owain Glyndŵr Day, Roald Dahl Day, T. Llew Jones Day, 'Red Card to Racism' Day, Anti-Bullying Day, World Book Day, and a day dedicated to the children's mental and physical health.
- Llio from the Urdd visited to lead sports sessions with the Nursery and Reception, Years 1 and 2, and Years 3 and 4 classes.
- Year 6 pupils took part in Menter Iaith Sir Dinbych's 'Cwis Dim Clem' competition.
- A TTRockstars Mathematics (Times Tables) competition was held for Year 5 and 6 pupils.
- An evening event was held for parents to celebrate the success of the children who competed in the Urdd Eisteddfod.
- Every class had the opportunity to do some planting around the school grounds during the year.
- Groups of pupils from Years 3 & 4, and Years 5 & 6, took part in the book discussion element of the 'Welsh Book Challenge competition. Both groups came third within the county.
- Close links were maintained again with Ysgol Glan Clwyd, and Year 6 pupils had the opportunity to participate in various transition activities throughout the year.
- Two coffee mornings were held to raise funds for two charities, led by members of two committees: a Macmillan Coffee Morning and a Christian Aid Coffee Morning.

**S4C - 'Newyddion Ni' / Welsh News programme**

Dydd Iau Ebrill 23ain, daeth rhaglen deledu S4C 'Newyddion Ni' draw atom i ffilmio plant Bl 5 a 6 yn cymryd rhan yn her darllen Gwobr 'Tir Na n-Og'. Roedd pawb oedd eisiau bod yn rhan o'r rhaglen wedi cymryd rhan a bu i bum plentyn hefyd cael eu dewis i ofyn cwestiwn i Eluned Morgan cyn yr etholiad! Cliciwch ar y ddau linc isod chi weld y ddwy raglen -

https://www.youtube.com/watch?v=VaNlTGj6cds / https://www.youtube.com/watch?v=d-yy9dvPVo

*On Thursday, April 23rd, the S4C television programme 'Newyddion Ni' came to film Year 5 and 6 pupils taking part in the 'Tir Na n-Og' Award reading challenge. Everyone who wanted to be part of the programme took part, and five pupils were also chosen to ask Eluned Morgan a question ahead of the election! Click on the two links above to see the two programmes -*

**Arolwg Adran 50 yr Eglwys yng Nghymru / Church in Wales Section 50 Inspection**

Cynhaliwyd Arolwg Adran 50 gan yr Eglwys Dydd Llun 11 o Fai 2026. Mae'r adroddiad yn ganmoladwy iawn o'r gwaith sy'n digwydd yn yr Ysgol a'r gefnogaeth rydym yn cael gan randaliad a'r gymuned gyfan. Byddwn yn gosod argymhellion yr adroddiad fel Blaenoriaeth ar Gynllun gwella'r Ysgol ym mis Medi. - Gweler copi o'r adroddiad sydd i'w weld ar wefan yr Ysgol a gwefan Yr Eglwys yng Nghymru - <https://bit.ly/3UDqagY>

*A Section 50 inspection was conducted by the Church on Monday, 11th of May 2026. The report highly commends the work taking place at the school and the support we receive from stakeholders and the wider community. We will be using the report's recommendations as a priority in our School Improvement Plan this September. – Please see the report, which is available on our school's website and on the Church in Wales website - https://bit.ly/4wNYNyl*

**Adeiladau – Cynnal a Chadw / *Buildings – Maintenance***

Yn ystod y flwyddyn gwnaed y gwelliannau canlynol:

- Gosodwyd paneli solar newydd ar do'r Ysgol, ac ynyswyd waliau a tho'r ysgol.
- Gosodwyd ffens newydd a chael gwared â gwrych o flaen y buarth mawr.
- Gosodwyd Sied Addysg Gorfforol newydd ar y buarth.

*The following improvements were made during the year:*

- *New solar panels were installed on the school roof, and the school's walls and roof were insulated.*
- *A new fence was installed and a hedge in front of the large playground was removed.*
- *A new shed to keep our PE equipment was installed on the playground.*

**Cymdeithas Rhieni ac Athrawon (CRhA) – *Parents and Teachers Association (P.T.A)***

Rydym yn hynod o ddiolchgar i bwyllgor Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr Ysgol am ei gwaith caled i godi arian ar gyfer y plant. Buom yn ffodus iawn eleni iddynt gyfrannu'n hael iawn tuag gostau sawl ymweliad a rhoi ychydig o arian i bob dosbarth wario ar adnoddau. Gweler isod y gweithgareddau a gynhaliwyd eleni:-

- Disgo Noson Calan
- Ffair Nadolig llwyddiannus.
- Barbeciw Haf ar gae'r ysgol, ym mis Gorffennaf er mwyn dod a'r gymdeithas gyfagos at ei gilydd.

*We are extremely grateful to our School's Parent and Teacher Association committee for their hard work to raise funds for the children. We were very fortunate this year that they contributed generously towards the costs of several visits and gave each class some money to spend on resources. See below the activities that were arranged this year:-*

- *Halloween Disco.*
- *A successful Christmas Fair.*
- *Our Summer BBQ which was held on the field in July, which brought the local community together.*

**Cysylltiadau â'r Gymuned – *Links with the Community***

Mae bod yn rhan o'r gymuned yn bwysig iawn i ni fel ysgol. Mae dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen wedi mwynhau cael defnyddio gardd Y Ficerdy, Prion i gynnal gwersi tu allan a chael picnic tedi. Mae sawl aelod o'r gymuned wedi bod mewn i'r ysgol yn helpu gyda'r plant, boed gyda gwaith garddio, cynnal gweithgareddau, a hefyd dod i mewn i wrando ar rhai o'r plant yn darllen yn wythnosol. Rydym wedi bod

yn rhan eto eleni o orymdaith Dydd Gŵyl Dewi yn Ninbych ac yn ymfalchïo o weld ein plant yn dangos balchder tuag at eu diwylliant. Rydym wedi gwneud defnydd o Eglwys Llanrhaeadr a Chapel Saron ar gyfer cynnal ein Gwasanaeth Diolchgarwch a ffug bedydd. Mae Cylch Meithrin a Chlwb Sêr yn parhau yn glybiau gwerthfawr dros ben i gymuned yr ysgol a'r gymuned leol. Hefyd mae 'Ti a fi' yn cael ei gynnal bob bore Gwener rhwng 10 a 11:30 yn y Caban, sy'n gyfle eto i ddarpar rieni ddod draw am baned a sgwrs ac i gael blas ac ymdeimlad o'r ysgol.

Mae'r gymuned wedi bod yn gwneud defnydd rheolaidd o Fws mini'r ysgol. Rydym yn hynod o ffodus i gael cymuned sy'n gefnogol iawn i'r ysgol.

Mae gennym gyswllt agos gyda'r Esgobaeth hefyd wrth i Barchedig Juliet Fraser a Parchedig Andras Iago/Sarah Dafydd gynnal gwasanaethau yn rheolaidd yn yr ysgol. Bydd Mr Neil Roberts ein Hymwelydd Esgob yn cynnal gwasanaethau yn dymhorol ac rydym yn ffodus iawn o gael criw 'Troi'r Tudalen' yn dod draw bob hanner tymor i rannu a pherfformio straeon o'r Beibl.

Rydym hefyd eleni wedi sefydlu partneriaeth gyda Chapel Llanrhaeadr fel rhan o Bontio'r Cenhedlau. Cafodd plant CA2 gyfle i ymgynnull yn fisol yng Nghapel Llanrhaeadr i sgwrsio a chanu gyda thrigolion yr ardal. Cafwyd hefyd gyfle i fynd i gyd-ganu gyda chleifion yn Ysbyty Dinbych. Cafodd y gymuned gyfle i ddod draw i'r Ysgol i gynnal gweithdy cerddorol gyda phlant a chymuned yr Ysgol. Mae'r plant wedi elwa'n fawr wrth fod yn rhan o'r prosiect a hyderwn y cawn gyfle i fod yn rhan o brosiect tebyg eto blwyddyn nesaf.

*Being part of the community is very important to us as a school. Foundation Phase classes have enjoyed being able to use the 'Vicarage' garden, to hold lessons outside and have a teddy picnic. Several members of the community have visited the school to help with the children—whether to help with gardening, running activities, or coming in weekly to listen to some of the children read. We have once again taken part in the St David's Day parade in Denbigh, and we take pride in seeing our children show such pride in their culture. We have made use of Llanrhaeadr Church to host our Thanksgiving Service and Saron Chapel holding our mock baptism service.*

*Cylch Meithrin and Clwb Sêr continue to be extremely valuable clubs for the school and the local community. Also 'Ti a fi' is held every Friday morning between 10 and 11:30 in the Parish Cabin, which is another opportunity for prospective parents to come over for a cup of tea and a chat, and to get a taste and feel of the school.*

*The community has been making regular use of the school's minibus. We are extremely fortunate to have a community that is very supportive of the school.*

*We also have a close link with the Diocese, with Reverend Juliet Fraser and Reverend Andras Iago/Sarah Dafydd regularly conducting services at our school. Mr Neil Roberts, our Bishop Visitor, leads termly services, and we are very fortunate to have 'Turn the Page' group, who visit every half-term, to share and perform different Bible stories.*

*This year, we also established a partnership with Llanrhaeadr Chapel as part of the *Pontio'r Cenhedlau* (Bridging the Generations) initiative. Key Stage 2 pupils had the opportunity to gather monthly at Lanrhaeadr Chapel to socialise and sing with local residents. There was also an opportunity to join patients at Denbigh Infirmary for a singing session. Members of the community were invited to the school to hold a music workshop with the pupils and the school community. The children have benefited greatly from being*

*part of this project, and we hope to have the opportunity to participate in a similar project again next year.*

**Darpariaeth ar gyfer plant ag Anableddau neu Anghenion Dysgu Ychwanegol /**

***Provision for children with Disabilities or Additional Educational Needs***

Nod yr ysgol ydi datblygu pob disgybl hyd at eithaf ei allu ac mae darpariaeth ar gael i gynorthwyo'r disgyblion i wneud hynny. Mae Mrs Jan Roberts wedi bod yn dod i mewn i wneud gwaith cefnogi gwirfoddol yn rheolaidd, ac rydym hefyd yn targedu plant pan fo angen.

Nodir ym mholisi ADY yr ysgol y drefn o adnabod, asesu a darparu ar gyfer disgyblion ag ADY. Y pennaeth a Senco'r Clwstwr sef Manon Tudur sy'n gyfrifol am gydlynu'r ddarpariaeth briodol ac mae aelod o'r Corff Llywodraethol hefyd wedi'i dewis i fonitro'r polisi.

Cynhelir cyfarfodydd Cynllunio gyda'r Awdurdod Addysg yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth orau i'n plant. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd efo'r Seicolegydd Addysg, y Gwasanaeth Cefnogi Ymddygiad, Iaith a Lleferydd ac asiantaethau arbenigol eraill. Yn ogystal â hyn, mae ysgolion Clwstwr Glan Clwyd yn cwrdd yn rheolaidd i drafod materion ADY.

Yn ystod y flwyddyn, buddsoddwyd mewn hyfforddiant ac adnoddau er mwyn i ni allu ymateb i anghenion ein dysgwyr - hyfforddiant i gefnogi Llythrennedd a rhifedd.

*The aim of the school is to develop each pupil to the maximum of their ability and provision is available to help the pupils to do that. Mrs Jan Roberts has been coming in to do voluntary support work regularly, and we also target children when necessary.*

*The school's ALN policy states the procedure for identifying, assessing and providing for pupils with ALN. The headteacher and Cluster Head, Manon Tudur, are responsible for coordinating the appropriate provision and a member of the Governing Body has also been chosen to monitor the policy.*

*Planning meetings are held with the Education Authority during the year to ensure the best provision for our children. This includes meetings with the Educational Psychologist, the Behaviour, Language and Speech Support Service and other specialist agencies. In addition to this, Glan Clwyd Cluster schools meet regularly to discuss ALN issues.*

*During the year, we invested in training and resources so that we could respond to the needs of our learners - training to support Literacy and numeracy.*

***POLISÏAU'R YSGOL / SCHOOL POLICIES***

*Cafodd nifer o bolisïau cwricwlaidd a rheolaethol eu hadolygu yn ystod y flwyddyn ac mae copïau ohonynt ar gael yn yr ysgol.*

*A number of curricular and management policies were reviewed – copies of which are available on request.*

***YMDRIN Â CHWYNION / DEALING WITH COMPLAINTS***

*Mae gan yr ysgol ethos agored cyfeillgar ac mae croeso i chi drefnu i weld y Pennaeth i drafod unrhyw bryder. Pan fo angen codi cwyn am agwedd o waith yr ysgol, dylid cysylltu â'r Pennaeth ac os na chewch eich bodloni, cysylltwch â Chadeirydd y Corff Llywodraethol. Os yw'r mater dal heb ei datrys cysylltwch â'r*

*Adran Addysg yn y Cyngor Sir.*

*The school has an open and friendly ethos and you are welcome to arrange to meet the Head teacher to discuss any concerns. If you have a complaint about any aspect of school work, the first point of contact should be the Head teacher, and if you are not satisfied, you should contact the Chair of Governors and then, if the matter is unresolved, the Local Authority.*